

HERBERT (TEULU), Trefaldwyn, Parke, Blackhall, Dolguog, Cherbury, Aston

Y mae pwysigrwydd a blaenoriaeth yr Herbertiaid yng nghanolbarth Cymru yn dyddio o'r adeg - yn gynnar yn nheyrnasiad Harri VIII - yr ymsefydlodd Syr RICHARD HERBERT (1468 - 1539), a oedd newydd gael ei wneuthur yn farchog, yn Nhrefaldwyn. Mab oedd ef i'r Iorcydd Syr Richard Herbert, Coldbrook, a roddwyd i farwolaeth, gyda'i frawd [William](#), yr iarll Pembroke 1af, wedi buddugoliaeth y Lancastriaid yn Edgecote, 1469; yr oedd hefyd yn nai i [Syr Rhys ap Thomas](#). Fe'i cysylltodd Richard ei hun â gyrfa esgynnol [Syr Charles Worcester](#), arglwydd Herbert o Raglan a iarll 1af Worcester yn nes ymlaen, a etifeddodd stadau teulu [Pembroke](#), a'r dylanwad a olygent, trwy ei briodas ag Elizabeth Herbert, yres yr [iarll Pembroke 1af](#) a chyfyrdereis Syr Richard.

Ar ôl llenwi rhai swyddi bychain yn y llys brenhinol ac yn Ne Cymru o dan Harri VIII, daeth Herbert yn gynrychiolydd ei noddwr yng nghanolbarth Cymru; yr oedd [Somerset](#) yn stiward maenorau brenhinol Trefaldwyn, Kerry, a Chydewain, ac yn gwnstabl castell Trefaldwyn (a chanddo hefyd awdurdod i ddewis ei swyddogion ei hun), a dewisodd Herbert yn dderbynydd ('receiver') y rhan fwyaf o diroedd fforffetiedig York a Mortimer; bu'n ei gynorthwyo hefyd yn erbyn hawliau gwrthgyferbyniol [Walter Devereux](#), arglwydd Ferrers. Yr oedd Herbert yn pleidio Cromwell ac yn gryf o blaid y polisi a gynhwysid yn y Deddfau Uno - anfonodd betisiwn ar hynny at Gromwell yn 1536; dywed ei or- yr, [Herbert o Cherbury](#), iddo ddefnyddio ei awdurdod mewn modd eang yn nwyrain, gorllewin, a gogledd Cymru ('the East, West and North Wales') - awdurdod a nerthid gan y ffaith ei fod yn aelod o Gyngor y Goror - i ddifodi, mewn modd didosturi, eithr gyda chyfiawnder ar yr un pryd, y gwrthryfelwyr, y lladron, etc.

Trwy drefnu priodasau doethion gydag aelodau prif deuluoedd y sir gadawodd yno i'w ddisgynyddion - eithr heb ychwanegu dim at ei ffortiwn ei hun - safle o bwysigrwydd a blaenoriaeth; digwyddodd hefyd i'r rhan fwyaf o'r disgynyddion brofi eu bod yn bobl o nerth corfforol a dewrder anghyffredin, fel efe ei hunan, ac yn nodedig hefyd ar gyfrif eu hirhoedledd a'u gallu epilol. Bu farw 23 Mai 1539; dywedodd [Rowland Lee](#) amdano - 'the best of his name that I knew,' a themlai fod ei golli ef, o safbwynt achos trefnu a chyfraith yng nghanolbarth Cymru, yn gyfystyr â cholli braich.

Yr oedd WILLIAM HERBERT, Parke, trydydd mab Syr Richard Herbert o'i wraig gyntaf, ymhlith yr ustusiaid heddwch cyntaf a ddewiswyd yn Sir Drefaldwyn (1541) o dan y Ddeddf Uno, ac efe oedd cynrychiolydd seneddol cyntaf y fwrdeisdref - bu'n feili 'r dref yn 1538; bu hefyd yn aelod seneddol dros y sir yn 1545 a 1547, yn siryf sir Drefaldwyn yn 1547 a Sir Aberteifi yn 1549.

Eithr cymerwyd lle dylanwad Herbertiaid Parke gan eiddo plant Syr Richard Herbert o'i ail wraig. Yr hynaf o'r rhain oedd EDWARD HERBERT, Trefaldwyn a Blackhall (1513 - 1593). Fe'i cysylltodd ef ei hun â'i gyfyrdwr [William Herbert](#), iarll 1af Pembroke (o'r ail greadigaeth), y g r a etifeddodd ddylanwad teulu Raglan yng nghanolbarth Cymru, a bu'n gwasnaethu dano yn erbyn gwrthryfelwyr y gorllewin yn nheyrnasiad Edward VI (1548) ac yn ben ar 500 o w 'r o ganolbarth Cymru yn erbyn y Ffrancwyr yn nheyrnasiad Mari (1557); cafodd ganddo hefyd arglwyddiaeth Cherbury (1553). Yn herwydd y cysylltiad â theulu [Pembroke](#) cafodd nawdd Robert Dudley, iarll Essex (ewythr gwraig [Pembroke](#)), daeth yn geidwad castell Holt ac arglwyddiaeth Bromfield a lâl yn Sir Ddinbych (1570), a phan brynwyd arglwyddiaeth Powis gan fab iau [Pembroke](#), sef [Syr Edward Herbert](#) (1587), daeth yn stiward honno ac yn gwnstabl castell Trefaldwyn. Yr oedd yn siryf yn 1557 a 1568, ac, yn ddiweddarach, yn 'custos rotulorum,' a bu'n cynrychioli'r sir ym mhob Senedd ond tair o 1553 hyd 1588, pryd yr enillodd yr etholiad cyntaf yno y bu cystadlu ynddi, etholiad yr heriwyd ei chanlyniad yn y Star Chamber oherwydd achwyniad i'w fab-yng-nghyfraith, y siryf, ddangos unochredd.

Trwy hyn oll llwyddodd i drefnu goruchafiaeth ei deulu yngl n â gwleidyddiaeth boliticaidd y sir, goruchafiaeth a barhaodd hyd y Senedd Faith oddigerth am y blynyddoedd c. 1597-1629, pryd y rhennid ef rhyngddynt a [Herbertiaid Powis](#) cyn i'r rheini gael eu dyrchafu i'r bendefigaeth. Serch hyn i gyd, a serch ei safle fel 'Squire of the Body' i'r frenhines Elisabeth, edrychid arno, o leiaf hyd 1574, fel un o dri Phabydd blaenaf y sir. Parhaodd ymgyrch ei dad yn erbyn 'Outlaws and thieves' yng nghanolbarth Cymru, a llwyddodd i'r fath raddau nes y gallodd sefydlu a noddi llawer o deuluoedd newydd yn y sir ac adeiladu iddo'i hun Blas newydd (Llys Mawr, Lymore, neu Blackball), lle yr oeddid yn byw mewn dull a oedd bron â bod yn frenhinol.

Y mae'n debyg i RICHARD HERBERT (bu farw 1596), un o 11 plentyn yr Edward Herbert uchod, gael ei addysg yn Gray's Inn. Cynrychiolodd ei sir yn senedd 1586 (fe'i dewisid dros y fwrdeisdref yn 1580 eithr diddymwyd yr ethol hwnnw) a sefydlodd linach teulu Herbertiaid Cherbury a unwyd wedi hynny â llinach Dolguog (a sefydlwyd gan ail fab Edward Herbert). Y trydydd mab oedd CHARLES HERBERT, a anwyd c. 1567; efallai iddo gael ei addysg yng Ngholeg Magdalen, Rhydychen. Gyda'i gâr, [Syr William Herbert](#) (bu farw 1593), yr oedd yn un o'r sefydlwyr ('planters') yn Munster, Iwerddon. Bu'n siryf sir Drefaldwyn yn 1603. Trwy ei wraig Jane, merch Hugh ab Owen, cafodd stad gyfagos Aston, a daeth yn dad Syr EDWARD HERBERT (c. 1591 - 1657).

Daeth pedwar o feibion Richard Herbert yn enwog. Sonnir am [Edward](#), y barwn Cherbury 1af, ar ei ben ei hun. Bu ei fab ef, RICHARD HERBERT (c. 1600 - 1655), ail farwn Herbert o Cherbury, yn cynrychioli sir Drefaldwyn yn y Senedd Fer a'r

fwrdeisdref yn y Senedd Faith, gan gael ei ethol pan oedd yn ymladd yn ' Rhyfel yr Esgobion,' lle y dangosodd wrhydri eithriadol yn erbyn y Sgotiaid yn Newburn (28 Awst 1640); yn nes ymlaen, fodd bynnag, bu raid iddo wynebu achwyniad difrifol mewn llys milwrol.

Yn y Senedd dangosai ei fod yn ffafrio Strafford eithr caniatawyd iddo, pan dorrodd gwrthryfel Iwerddon allan, fynd i'r wlad honno gyda nifer o w r meirch (Mawrth 1642). Pan dorrodd y Rhyfel Cartrefol allan, bu ar gomisiwn yn swydd Amwythig a oedd yn darparu arfau rhyfel a gw r i ymladd - buasai'n ustus heddwch yn y sir honno er 1634 - ac felly bu raid iddo golli ei swydd yn Westminster (12 Medi 1642), cododd (ar ei draul ei hun, i raddau helaeth) fyddin o w r meirch a 1,200 o w r traed, a daeth, yn olynol, yn llywodraethwr Bridgnorth (17 Medi 1642) a Llywodlo (28 Medi), yn bennaeth castell Aberystwyth (12 Ebrill 1644), ac yn llywodraethwr Casnewydd-ar-Wysg (1645) - gan gasglu at ei gilydd yng Nghasnewydd filwyr o'r newydd a defnyddiau at wasanaeth y brenin, pan oedd hwnnw'n ceisio atgyfnerthion, yn ddynion a defnyddiau, ar ôl brwydr Naseby. Bu'n hebrwng y frenhines i'r pencadlys brenhinol pan ddychwelodd hi o Holland yn 1643, a chafodd ei anrhegu â gradd M.A. ('er anrhydedd') gan Brifysgol Rhydychen (21 Chwefror 1643). Talodd ddirwy o £1,000 yn 1647 er mwyn cael meddiannu ei eiddo ei hun, a'r flwyddyn ddilynol etifeddodd stadau a theitlau ei dad (6 Awst 1648). Bu farw yn Nhrefaldwyn 13 Mai 1655. Mary, merch John, iarll 1af Bridgewater, llywydd Cyngor y Goror, 1631-42, oedd ei wraig.

Pumed mab Richard Herbert (Trefaldwyn) oedd [George Herbert](#), y bardd. Y chweched oedd Syr HENRY HERBERT (1595 - 1673). Aeth ef i Ffrainc yn llanc i ddysgu'r iaith. Am y negeseuon llysgenhadol y dywed [W. R. Williams](#) (*The parliamentary history of the principality of Wales*, 140) iddo eu cyflawni yno - camgymeriad yw hyn, gan mai [Syr John Herbert](#) (1550 - 1617) a'u gwnaeth; aeth Syr Henry Herbert i'r wlad honno, fodd bynnag, yn 1619 i baratoi ar gyfer llysgenhadaeth ei frawd hynaf. Cafodd ei gyflwyno i'r llys brenhinol gan ei gâr [William Herbert](#), 3ydd iarll Pembroke, a chafodd ei wneuthur yn ' Master of the Revels,' 1623-42 a 1660-73. Bu'n cynrychioli Trefaldwyn yn Senedd 1626, eithr treuliodd weddill ei oes yn Lloegr - yr oedd priodas ffortunus mewn ystyr ariannol (1627) wedi ei alluogi i brynu cyfran ei frodyr Edward a George ym maenor Ribberford, swydd Worcester. Bu'n ymladd yn y ' Bishops' War,' 1639, a bu'n eistedd tros Bewdley yn y Senedd Fer â'r Faith (ac ar ôl yr Adferiad) eithr gadawodd ('deserted') ei sedd i ymuno â'r brenin pan dorrodd y Rhyfel Cartrefol allan, ac felly fe'i dirwywyd i'r swm o £1,330. Daeth ei fab HENRY HERBERT (bu farw 1738) yn farwn Herbert of Cherbury (o'r ail greadigaeth) yn 1694.

Treuliodd THOMAS HERBERT (1597 - c. 1642), seithfed mab Richard Herbert (fe'i ganwyd wedi marw ei dad), y rhan fwyaf o'i oes rhwng 13 a 30 oed ar y môr neu yn y fyddin; bu'n ymladd yn yr Iseldiroedd a'r dwyrain pell, aeth gyda [Syr Robert Mansel](#) i Algiers yn 1620-1, ac efe oedd pennaeth y llong a gludai'r tywysog Siarl (Siarl I wedi hynny) i Sbaen pan oedd yn ceisio'r Infanta yn wraig (1623). Ar ôl 1625 ymneilltuodd o fywyd cyhoeddus, a threulio'i amser yn ysgrifennu adroddiadau disgrifiadol a dychanol o fywyd ar y môr.

Syr EDWARD HERBERT (c. 1591 - 1657), g r o'r gyfraith.

Mab oedd ef i Charles Herbert, Aston (uchod), brawd iau Richard Herbert. Cafodd ei addysg yn y Queen's College, Rhydychen (1608), a'r Inner Temple (1609), ac fe'i gwnaethpwyd yn fargyfreithiwr (1618). Daeth yn aelod seneddol Trefaldwyn yn 1620, eithr wedi hynny bu'n cynrychioli etholaethau yn Lloegr, gan mwyaf o dan nawdd [iarll Pembroke](#). Yr oedd yn edmygydd mawr o Selden erioed, ac ymunodd ag ef yn seneddau 1626 a 1628 i ymosod ar Buckingham ac yn yr ymgyrch o blaid y ' Petition of Right,' a bu'n amddiffyn Selden yn y cyngaws a ddilynodd, eithr ymheddychodd â'r llys y flwyddyn wedyn ac arweiniodd yr achos yn erbyn Prynne a'i gyd- Biwritaniaid; serch hynny, bu'n gweithredu fel bargyfreithiwr dros yr [archesgob John Williams](#) pan erlyniwyd hwnnw gan Laud.

Yn rhinwedd ei swydd fel 'Solicitor-General' (cawsai ei wneuthur yn farchog yr un pryd) bu'n amddiffyn polisi'r brenin yn y Senedd Fer; gadawodd y Faith i fod yn ' Attorney-General,' ac felly daeth yn gyfrifol am gymryd y 'Five Members' i'r ddalfa a thrwy hynny cafodd ei gyhuddo ei hunan o flaen T 'r Cyffredin a'i anfon i garchar am dymor byr.

Yr oedd ym mhencadlys y brenin yn ystod y Rhyfel Cartrefol; eithr ni hoffid mohono gan y frenhines y buasai'n gyfreithiwr iddi (o 1635 hyd 1640), na chan y brenin (a wrthododd y proclamasu'n ddrafftiasai, o'i anfodd, er mwyn cael diddymu'r Senedd Faith; barn y brenin oedd: ' He no more understood what the Meaning of it was, than if it was in Welsh, which was the language of the Attorney's Country'); ni hoffid mo Herbert ychwaith gan Hyde, ei gyd-ymgeisydd yn y gyfraith, a achubai bob cyfle i'w waradwyddo. Cafodd rywun mwy cydnaws yn y tywysog Rupert, gyda'r hwn y ffodd o'r wlad yn 1649 i fod ill dau yn achos ychwaneg o gwerylon neu ddadlau yn llys yr alltudion hyd nes y ceisiodd Siarl II ei fodloni trwy gynnig iddo'r swydd (mewn enw yn unig) o Arglwydd Geidwad y Sêl Fawr (16 Ebrill 1653); eithr bu raid i'r brenin dderbyn ei ymddiswyddiad ymhen y flwyddyn (Mehefin 1654), a bu Herbert farw ym Mharis, yn dlawd ac yn alltud, Rhagfyr 1657. Cydnabyddid ei unionder yn lled gyffredinol, a bod ganddo allu mawr fel cyfreithiwr, eithr yr oedd ei gogddysgeidiaeth ynghyd â'r balchter a'r ysbryd ymladdgar a oedd yn draddodiad yn ei deulu yn ei wneuthur yn ddyn anodd cydweithio ag ef.

Bu ei fab hynaf, ARTHUR HERBERT (1647 - 1716), iarll Torrington, yn swyddog uchel yn y llynges o dan Iago II nes y collodd ei le am wrthwynebu polisi'r brenin; bu'n helpu i ddwyn William III drosodd yn 1688, ac efe oedd pennaeth y llynges hyd nes y cyrhaeddwyd Beachy Head (1690).

Dilynodd yr ail fab, Syr EDWARD HERBERT (1645 - 1698), iarll Portland, yng nghanre ei dad, a dilynodd [Syr George Jeffreys](#) fel prif ustus cylchdaith Caer o'r Sesiwn Fawr (1683) a phrif ustus llys mainc y brenin (1685); wedi iddo golli ffafr Iago II am na chaniatâi ei gydwybod, fel g r o'r gyfraith, iddo gymeradwyo rhai o amcanion mwyaf mympwyol y brenin, fe'i dilynodd i alltud serch hynny, gan ddyfod yn arglwydd (mewn enw) ac yn Arglwydd Ganghellor hyd nes y cymerwyd ei swydd oddi arno am ei fod yn Brotestant (1692). Bu farw yn S. Germain, Tachwedd 1690.

Collodd y trydydd mab, CHARLES HERBERT, ei fywyd wrth wasanaethu William III yn y rhyfel yn Iwerddon (1691). Yr oedd y tri yn ddiblant a daeth llinell Herbertiaid Aston i'w therfyn.

Awdur

Yr Athro Emeritus Arthur Herbert Dodd, (1891 - 1975)

Ffynonellau

Barwn Edward Herbert, Lee (gol.), *The life of Edward Lord Herbert of Cherbury* (London 1886)

George Edward Cokayne, *The Complete Peerage of England, Scotland, Ireland, Great Britain, and the United Kingdom* (1887-1898), vi, 441-3

William Valentine Lloyd, *The Sheriffs of Montgomeryshire* (Llundain 1876), 34-5, 89-116

Letters and Papers, Foreign and Domestic, of the Reign of Henry VIII, [iv](#), 302-3, 872-3; [vii](#), 72, 197, 586, 619; [viii](#), 196; [x](#), 91, 94-5, 519; [xi](#), 85; [xii \(i\)](#), 49, 606; [\(ii\)](#) 285; [xiii \(ii\)](#), [xiv \(i\)](#), 469; Addenda, 242

Calendar of the state papers, relating to Scotland, [vii](#), 11, [viii](#), 124

The English historical review, xlvii, 227-38, lix, 357

W. R. Williams, [*The parliamentary history of the principality of Wales, from the earliest times to the present day, 1541-1895*](#) (Brecknock 1895), 142-3, 147, 149

Aubrey, *Brief Lives a selection based upon existing comtemporary portraits* (1949), 38

Ifan ab Owen Edwards, *A Catalogue of Star Chamber Proceedings Relating to Wales* (Cardiff 1929), 116-130

J. Jones ('Myrddin Fardd'), *Cynfeirdd Llyn, 1500-1800* (Pwllheli 1905), 60-1

Oxford Dictionary of National Biography, xxvi, 169-72, 180-184, 190-3, 214

Collections Historical and Archaeological relating to Montgomeryshire, vii, 136-9, 151-4, xi, 346-9, 362-4, 372, xxi, 359-60

Royal Commission on Historical Manuscripts, *Report on manuscripts in various collections*, ii, 257

Calendar of State Papers, Domestic Series, 1640-1, 87, 102, 258, 554, 570

J. E. Neale, *The Elizabethan House of Commons* (1949), pennod iv

Firth, R. S. Rait, *Acts and Ordinances of the Interregnum, 1642-1660* (London 1911), ii, 1085

H. A. C. Sturgess, *Register of Admissions to the Honourable Society of the Middle Temple* (1949), i, 40

Bulletin of the Board of Celtic Studies, xii, 95

Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion, [1937](#), 177-86; [1938](#), 205-11; [1945](#), 10-13, 23-24, 33; [1946-7](#), 63, 73, 77, 84-5, 90, 95 a'r ffynonellau a enwir yno

John Roland Phillips, *Memoirs of the Civil War in Wales and the Marches, 1642-1649* (London 1874), ii, 257

Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, iii, 36-42, 138-50, vi, 256

[Powis Castle Estate Records](#) yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru

[Herbert of Cherbury Manuscripts and Papers](#) yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru

[NLW MS 9346B - A letter from Henry Herbert, 4th Baron, of Cherbury](#) yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru

H. Avray Tipping, *The story of the Royal Welsh Fusiliers* (London 1915) i

A. H. Dodd, *Studies in Stuart Wales* (Cardiff 1952), 26, 28, 46, 74, 79, 83, 86, 156-164, 168, 183 196, 217, 223, 229, 233

Thomas Carte, *A Collection of Original Letters and Papers concerning the Affairs of England, from the year 1641 to 1660* (Llundain 1739), 1739, i, 306, 428

W. R. Williams, *The history of the Great Sessions in Wales, 1542-1830, together with the lives of the Welsh judges* (Brecknock 1899), 42-3

A. H. Dodd, *Studies in Stuart Wales* (Cardiff 1952), 210, 212, 218, 220, 223, 232-3

William Valentine Lloyd, *The Sheriffs of Montgomeryshire* (Llundain 1876), 299-304
Llawysgrifau Castell Powys yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 17th century letters, 137

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20733164](https://www.wikidata.org/wiki/Q20733164)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

